Cyfleoedd Eraill

- **Aelodaeth o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr—mae Tai Esgyn yn ceisio ehangu aelodaeth y Bwrdd ac am recriwtio pobl o gefndiroedd amrywiol gydag amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau.**
- **Gweithio ar y cyd – mae Tai Esgyn yn awyddus i ddarganfod agoriadau newydd ar gyfer gweithio ar y cyd gyda darparwyr cymorth, gofal a thai eraill a sefydliadau statudol ac annibynnol**
- **Lleoliadau ar gyfer myfyrwyr-cyfle i ymarfer oddi fewn i faes iechyd meddwl a thai ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol a myfyrwyr eraill**
- **Rhaglen gysgodi— cyfle i bobl o sefydliadau eraill ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a thai**
- **Gwirfoddoli— cyfle i fyfyrwyr wirfoddoli fel rhan o Brosiect Esgyn, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe**
- **Hyfforddiant— gall Tai Esgyn ddarparu hyfforddiant mewnol ar faterion iechyd meddwl a thenantiaeth.**

Os hoffech gael gwybodaeth bellach am unrhyw beth yn y pamffled hwn, cysylltwch â:

Tai Esgyn
Tŷ Beaufort
Heol Beaufort
Abertawe
SA6 8JG

(01792) 798656

www.taiesgyn.org.uk

Cwmni Cofrestredig rhif: 1296339
Elusen Gofrestredig rhif: 506076

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Tai Esgyn Housing

Ynghylch Tai Esgyn

Create PDF files without this message by purchasing novaPDF printer (http://www.novapdf.com)

Sefydlwyd Tai Esgyn yn 1977 yn Abertawe i ddarparu tai a chymorth i gleifion wrth iddynt ymadael ag ysbyty meddwl lleol. Y nod oedd atal dirywiad wth eu hannog i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Mae'r sefydliad, a ddaeth yn Tai Esgyn yn 1999 yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig. Mae unrhyw elw sy'n weddill yn cael ei ailfuddsoddi yn y cwmni er mwyn datblygu'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae Tai Esgyn wedi ei gofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru fel Darparydd Cymorth Cymeradwy a chydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fel Asiantaeth Gofal Cartref. Mae gwasanaethau Tai Esgyn yn cael eu harolygu gan y cyrff hyn yn rheolaidd er mwyn diogelu safonau a sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel.

Mae Tai Esgyn yn gallu darparu gwasanaethau ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae Tai Esgyn yn gweithio gyda phobl oddi fewn i ardaloedd pedwar Awdurdod Lleol ac ar restr Darparwyr Cymeradwy nifer o Awdurdodau eraill.

Mae Tai Esgyn yn cyflawni rhan Asiant Rheoli mewn cydweithrediad â nifer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar draws De Cymru, ac yn darparu lletyau sydd yn amrywio o fflatiau un ystafell wely i unedau ar y cyd, i letyau sydd wedi eu haddasu'n arbennig ar gyfer pobl ag amrywiaeth o anableddau corfforol.

Yn ogystal â chydweithio gyda phobl broffesiynol yn y maes iechyd meddwl, mae Tai Esgyn hefyd yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn y Trydydd Sector a thu hwnt.

Mae gan holl staff Tai Esgyn yn arbenigwyr iechyd meddwl.

Dyfarnwyd statws **Buddsoddwr Mewn Pobl** i Tai Esgyn yn 2008, ac yn 2009, enillodd Tai Esgyn y wobr ar gyfer **Sefydliad Dysgu'r Flwyddyn** yng Ngwobrau Cyrhaeddiad Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent.

'Yn gweithio gyda phobl i ddod yn bopeth yr oeddent yn meddwl y gallent fod—a mwy'

Ein Gwasanaethau

MaeTai Esgyn yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth a llety ar gyfer oedolion:

- **Cymorth dwys a gwasanaethau tai ar gyfer pobl sy'n camu i lawr o gyfleusterau diogelwch isel**
- **Gwasanaethau cymorth dwys a thai ar gyfer pobl sy'n dychwelyd o leoliadau preswyl y tu allan i'r sir**
- **Cymorth tai a chymorth tenantiaeth 24/7**
- **Cymorth arbenigol a thai ar gyfer pobl hŷn y tu fewn i dai â gofal ychwanegol**
- **Ystod eang o wasanaethau cymorth wrth gefn**
- **Gofal yn y cartref, yn cynnwys gofal personol**
- **Gofal lliniarol**
- **Cymorth gyda gorddryswch**
- **Gwasanaethau adsefydlu a chymorth ar gyfer pobl sy'n camdrin sylweddau**
- **Cymorth yn y cartref ar gyfer pobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd**
- **Gofal ysbaid yn y cartref/ cymorth i fynd ar wyliau**
- **Cymorth i deuluoedd a gwasanaethau ar gyfer gofalwyr.**

Tai Esgyn Housing

Yn gweithio gyda Phobl i fwrw 'mlaen â Bywyd

Mae ystod y cymorth a ddarperir yn ddigon hyblyg i amrywio o ran dwyster yn ôl y gofyn. Gall hyn olygu darparu cymorth saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

Yn ogystal â chytundebau Cefnogi Pobl a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae Tai Esgyn yn darparu gwasnaethau a gomisiynir ac a ariennir yn uniongyrchol gan ffrydiau Gofal Cymunedol, gan Gomisiynwyr Iechyd lleol fel Gofal Iechyd Parhaus, ac hefyd gwasanaethau ar gyfer unigolion trwy Daliadau Uniongyrchol. Beth bynnag yw'r angen, gall Tai Esgyn gynnig ymateb—o gais unwaith yn unig i gynorthwyo person i fynychu achlysur cymdeithasol—i gytundeb tair blynedd am gymorth dwys.

Create PDF files without this message by purchasing novaPDF printer (http://www.novapdf.com)